Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol

# UA1: Iechyd Pridd – Canllawiau Technegol

**Ionawr 2026**



## UA1: Iechyd Pridd – Canllawiau Technegol

### Pryd i godi samplau pridd

Yr amser gorau i godi samplau pridd yw yn yr hydref, pan fydd amodau'r pridd (gan gynnwys y tymheredd a'r lleithder) yn golygu ei bod yn haws codi samplau ac mae'r canlyniadau'n fwy cynrychioladol.

Hefyd, ddylech chi ddim codi samplau 6 mis neu lai ar ôl gwasgaru calch neu wrtaith (heblaw am Nitrogen), neu o fewn 6 wythnos ar ôl gwasgaru tail.

Yn olaf, peidiwch â chodi samplau lle bu aflonyddu amlwg ar y pridd, er enghraifft wrth gatiau neu fannau bwydo, neu'n rhy agos at ffiniau caeau a thomenni tail, talarau neu wrth goed. Peidiwch â chodi samplau lle mae'n amlwg bod anifeiliaid wedi bod yn gwneud dŵr neu'n teilo.

### Dewis Unedau Samplu

Mae'n bwysig eich bod yn codi samplau o'r tir sydd wedi'i wella mewn cae. Os mai'r un math o bridd sydd yn y cae cyfan a'i fod i gyd yn cael ei reoli yn yr un ffordd, gallwch samplu'r cae cyfan fel un uned samplu. Mater syml wedyn yw rhannu'r gwaith o samplu holl gaeau'r fferm dros y 5 mlynedd.

Os yw'r cae cyfan yn cael ei reoli yn yr un ffordd a bod ei holl bridd o'r un math neu wead, ond ei fod yn fwy na 10ha, yna dylech ei rannu yn ddwy uned samplu o leiaf.

Gallwch gyfuno sawl cae bach cyffiniol yn un sampl pridd os:

- Yw pob cae yn llai na 0.5ha (hyd at gyfanswm o 4ha)
- Yw'r caeau'n ffinio â'i gilydd a'u bod yn cael eu rheoli yn yr un ffordd, ac nad yw adeiladwaith/natur y pridd yn amrywio.

Ar gyfer pob cyfuniad o gaeau, gwnewch yn siŵr bod y samplau'n cael eu casglu'n gymesur o bob un o'r caeau a'u cyfuno wedyn yn un sampl i'w ddadansoddi mewn labordy (bydd angen rhyw 400g i allu cynnal dadansoddiad, ond holwch eich labordy) h.y. bydd angen 20 o bwyntiau samplu mewn siâp 'W'. Os oes gennych 4 cae o'r un maint, yna codwch 5 sampl ym mhob un. Os oes gwahaniaeth mawr rhwng maint y caeau, yna dylech newid faint o samplau sydd eu hangen yn unol â hynny. Dylech osgoi bylchau caeau, perthi/gwrychoedd a mannau sydd wedi'u stablad (sathru).

Os ydych yn rheoli rhannau gwahanol o'r cae mewn ffyrdd gwahanol, dylech ystyried rhannu'r cae yn nifer o unedau samplu. Yn yr un modd, os ydych chi'n gwybod bod amrywiaeth o fathau o bridd yn yr un cae neu os yw'ch cnwd yn tyfu ar raddfa wahanol yn rhannau gwahanol y cae, ystyriwch rannu'r cae yn nifer o unedau samplu. Gallwch godi samplau pridd eich hun neu ddewis cwmni i wneud ar eich rhan. Dylech ddefnyddio'r un uned samplu bob tro y byddwch chi'n profi'r pridd dros amser ichi allu gweld unrhyw newidiadau go iawn yn statws maethynnau'r pridd.

**Offer samplu a argymhellir**

Beth sydd ei angen arnoch:

- Er nad ydyn nhw'n orfodol, rydyn ni'n argymell eich bod yn defnyddio taradr (*auger)* / teclyn turio (*corer*) i godi samplau pridd â llaw: gallwch eu prynu ar-lein neu mewn siopau nwyddau haearn.
- Cyn codi sampl, gosodwch y turiwr ar 7.5 cm neu 15 cm. Mae dyfnder y sampl yn dibynnu ar y defnydd tir: hyd at ddyfnder o 15 cm os yw'n gae âr neu'n borfa dros dro, neu 7.5 cm o ddyfnder os yw'n borfa barhaol. Mae'n bwysig iawn bod yn gywir a chyson o ran dyfnder gan fod pridd sy'n agos at y wyneb yn gallu bod yn wahanol iawn i bridd dwfn.
- Pren mesur
- Bagiau ar gyfer cadw samplau pridd i'w hanfon i'r labordy gyda labeli
- Pen marcio parhaol
- Ffôn clyfar neu ddyfais GPS

**Sut i godi samplau pridd**

Ym mhob uned samplu dan sylw, codwch samplau pridd gan ddilyn y camau isod:

- Peidiwch â chodi samplau pridd lle mae tomenni tail wedi bod, o fannau bwydo neu dalarau, wrth gatiau neu ffiniau caeau. Chewch chi ddim samplau cynrychioliadol iawn yno.
- Cerddwch ar draws y cae mewn siâp W llydan a chodi 5-7 o is-samplau ar bob coes o'r W gyda'r un pellter rhwng pob un ar y dyfnder gofynnol ar gyfer y cnwd.
- Mae cymryd nifer o is-samplau yn helpu i sicrhau bod y canlyniadau'n gywir ac yn gynrychioliadol o'r cae / uned samplu gyfan.
- Dylech godi samplau o ddyfnder o 7.5cm ar borfa barhaol a 15cm ar dir âr neu borfa dros dro.
- Tynnwch unrhyw gerrig a darnau mawr o lystyfiant o bob sampl cyn eu rhoi i gyd gyda'i gilydd mewn un cynhwysydd glân.
- Cymysgwch yr is-samplau'n drylwyr i greu un sampl mawr cyfunol terfynol.
- Rhowch y swm sydd ei angen o'r sampl terfynol mewn un bag dan sêl. Bydd y rhan fwyaf o labordai angen tua 400g o bridd llaith i allu cynnal dadansoddiad ond gall eich labordy esbonio hyn yn gliriach wrthych.
- Labelwch y bag gan ddefnyddio pen marcio parhaol gydag enw/rhif y cae, eich enw chi, enw'r fferm a'r dyddiad.
- Anfonwch y bag(iau) i'r labordy i'w dadansoddi gyda'r gwaith papur angenrheidiol gan ailadrodd enw'r fferm, enwau/rhifau'r caeau (wedi'u hysgrifennu ar fagiau'r samplau), eu lleoliad gan ddefnyddio GPS neu'r ffôn, dyddiad y sampl, dyfnder y sampl a'r dadansoddiad sydd ei angen arnoch.

Os nad ydych yn siŵr o'r gofynion o ran codi samplau a sut i'w pacio, holwch y labordy sy'n cynnal eich profion pridd.


Gallwch gyflogi rhywun arall i godi samplau pridd ar eich rhan neu gallwch ei wneud eich hun. Os penderfynwch ei wneud eich hun, dilynwch y drefn uchod.

Disgwylir y bydd angen 20 munud arnoch i godi samplau fesul uned samplu, a bydd angen amser arnoch hefyd i grynhoi'r samplau, eu hanfon i'r labordy a gwneud y gwaith papur.

Er nad yw'n un o ofynion y Weithred Gyffredinol, i'n helpu gyda'r dadansoddiad, cofnodwch ddata ychwanegol am y lleoliad, gan gynnwys y math o bridd (os ydych yn gwybod) a hanes rheoli'r cae lle mae'r uned samplu i'ch helpu gyda phenderfyniadau rheoli yn y dyfodol (h.y. cnwd blaenorol, cnwd cyfredol, tail/slyri neu wrtaith, ac ati).


Mae mesuriadau a dadansoddiadau opsiynol pellach a allai'ch helpu i bennu iechyd y pridd, er enghraifft: asesu strwythur pridd h.y. palu pydew i asesu proffil pridd lle mae’r tir wedi’i gywasgu, dyfnder gwreiddiau ac ati; rhifo mwydod (pryfed genwair); ac asesu erydiad ac olion aflonyddu.

Gweler isod enghraifft o ddull samplu W safonol:




***Ffigur* 1 *Canllaw ar gyfer samplu siâp 'W' sy'n ystyried mannau lle ceir olion o aflonyddu ar y pridd. Ffynhonnell: 2007a; Smith et al., (2022)***

Gweler isod ddull samplu cae lle ceir mwy nag un dull rheoli:



*Ffigur 2 Canllaw ar gyfer samplu siâp 'W' ar gae â 2 uned reoli. Ffynhonnell: 2007a; Smith et al., (2022)*

## Storio ac Anfon Samplau

Os nad yw'n bosib anfon y sampl/samplau pridd i'r labordy yn syth ar ôl codi'r samplau, gallwch storio'r pridd mewn oergell am hyd at 1 wythnos. Dylech anfon y samplau i'r labordy o fewn 1 wythnos ar ôl eu codi.

I drefnu anfon y sampl i'r labordy, defnyddiwch y ffurflen cyflwyno samplau ar wefan y labordy. Dylech gynnwys enw'r fferm, enw'r uned samplu, ei lleoliad gan ddefnyddio GPS neu ffôn os cafodd ei gymryd, y dadansoddiad rydych chi am ei gael (P, K, Mg, pH, SOM) a'r manylion ar gyfer cysylltu â chi.

Holwch eich labordy sut i bacio, labelu, anfon a threfnu'r samplau. Efallai y gallwch gysylltu â'r labordy ar ei wefan, neu gallwch ddefnyddio gwefan y cludwr i drefnu anfon y samplau pridd i'r labordy. Bydd y labordy yn rhoi gwybod i chi bod y samplau wedi cyrraedd a bydd hefyd yn dychwelyd y bocs oer a'r pecynnau iâ i gyfeiriad y fferm.

Mae'n bwysig bod yr holl samplau pridd o'ch fferm yn cael eu hanfon i'r un labordy a bod yr un dulliau'n cael eu defnyddio bob cyfnod samplu.

Mae gwefan yr AHDB yn rhestru nifer o labordai achrededig y gallwch anfon samplau pridd atyn nhw i'w dadansoddi. Fe welwch fanylion cwmnïau a fydd yn gallu codi samplau pridd a chynnal dadansoddiad mewn labordy.

Soil and forage testing companies | AHDB

## Dehongli Canlyniadau Dadansoddiad

Bydd canlyniadau dadansoddiad y labordy yn cael eu hanfon atoch dros e-bost neu drwy'r post. Byddwch yn derbyn un set o ganlyniadau fesul sampl pridd cyfunol (h.y. fesul uned samplu).

Ar ôl 1 Ebrill 2026, ni fydd Cyswllt Ffermio yn ariannu profion pridd ar gyfer ffermwyr sydd yn yr SFS, ond bydd cymorth yn dal ar gael i ddehongli'r canlyniadau ac i ghynghori ar unrhyw gamau priodol.

Gallwch ofyn i gynghorydd â'r cymwysterau priodol am ragor o gyngor ar bridd a maetholion ar ôl ichi gael canlyniadau eich profion pridd e.e. Cynllun Hyfforddi Cyngor ac Ardystio Gwrtaith (FACTS).